

ADEILADAU SERO NET

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP33A



Crynodeb Gweithredol

- i. Datganodd Cyngor Bro Morgannwg argyfwng hinsawdd yn 2019. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Her Newid Hinsawdd. Ynnddo, nodir bod angen ymchwilio i ddichonoldeb cyflawni adeiladau sero-net a chreu adeiladau mwy ynni-effeithlon trwy bolisi cynllunio. Mae'r gwaith a grynhoir yn y Papur hwn yn ben llanw'r gwaith o geisio cydymffurfio â'r ymrwymiad hwnnw a chyfrifoldebau ehangach y Cyngor i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- ii. Mae'r Papur yn crynhoi canlyniadau'r gwaith a wnaed i ymchwilio i b'un a ellir cynnwys polisi sy'n ceisio datgarboneiddio adeiladau newydd yn ymarferol o fewn y CDLIN. Yn benodol, ymchwiliodd y gwaith hwn i ddichonoldeb darparu adeiladau sy'n sero-net ac sydd â llai o garbon ymgorfforedig. Edrychodd y gwaith ar adeiladau preswyl ac amhreswyl, gan adolygu a modelu effeithiau'r polisi ar 3 teipoleg breswyl gyffredin yn y Fro ac adeilad ysgol a swyddfeydd.
- iii. Wrth gwblhau'r gwaith hwn, cyfarwyddwyd Spring Design i gynhyrchu cyfres o adroddiadau sy'n ymchwilio i gyd-destun polisi, dichonoldeb technegol a goblygiadau hyfywedd ariannol ymyrraeth o'r fath. Wrth ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn, mae'r Papur hefyd yn cyfiawnhau'r angen i ystyried safonau uwch na'r Rheoliadau Adeiladu presennol.
- iv. Wrth gyflawni sero-net gweithredol, gan ddilyn egwyddorion yr Hierarchaeth Ynni, defnyddir metrigau ynni i leihau'r galw cyffredinol ac yna defnyddir ynni adnewyddadwy i ddarparu ynni ar gyfradd sy'n gymesur â'r galw is. Mae'r papur yn nodi y dylid cynnwys metrigau ynni arfer gorau yn y CDLI o ran gofynion cynhesu gofodau a'r dwysedd defnydd ynni.
- v. Gwerthuswyd nifer o safonau adeiladu ynni-effeithlon a chanfuwyd ei bod yn dechnegol ymarferol cydymffurfio â'r safonau LETI mwyaf llym o 15 kwh/m²/blwyddyn o ran gofynion cynhesu gofod, a safon ychydig yn llai llym o 40 kwh/m²/blwyddyn i'r mesur dwysedd defnydd ynni, yn achos tai preswyl cyffredin ac y byddai gwneud hyn yn gost-niwtral o'i gymharu â'r costau disgwylidig o gyflawni Safonau 2025 AD:L (Cymru). O ystyried y gwaith hwn, mae'r Papur yn cynnwys polisi sy'n mynnu bod anheddau newydd yn net sero wrth weithredu.
- vi. Ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth y mae Spring Design wedi'i pharatoi, mae'r sector Landlordiaid Cymdeithasol hefyd wedi lansio Tai ar y Cyd, sy'n ddull 'llyfr patrymau' o gyflawni cartrefi carbon sero-net safonedig yn y sector tai fforddiadwy. Mae dwy safon wedi'u nodi yn y canllaw dylunio – safon sylfaenol sy'n cyfateb i AECB Carbonlite yn fras gyda thargedau i'r mesur cadw gofod yn gynnes o 40 kwh/m²/blwyddyn a ac i'r mesur dwysedd defnydd ynni o 75 kwh/m²/blwyddyn, a safon uwch sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r safonau LETI uchod. Mae manylebau technegol ar gael ar gyfer ALLau ac Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cynnal gwaith

datblygu i gyflwyno datblygiadau o dan bob safon, y ddau ohonynt yn sero net yn weithredol.

- vii. Trwy ymgysylltu â'r diwydiant datblygu, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r diwydiant uwchsgilio ac i'r gadwyn gyflenwi ymateb i'r newid hwn er mwyn darparu cartrefi i'r safonau angenrheidiol. Bydd disgwyl i'r diwydiant ymateb i'r polisi newydd hwn ond er mwyn caniatáu digon o amser ymlaen llaw, cynigir bod y polisi sero net gweithredol yn cael ei gyflwyno'n raddol i ddod yn fwyfwy llymach dros gyfnod y cynllun.
- viii. Yn rhan gyntaf cyfnod y cynllun ar ôl ei fabwysiadu, cynigir iddi fod yn ofynnol i anheddau newydd fodloni safon AECB Carbonlite, sy'n cyfateb i safon sylfaenol Tai ar y Cyd, ac yna, o ddyddiad penodol yn ddiweddarach yng nghyfnod y cynllun, bydd y targedau'n cael eu lleihau i adlewyrchu LETI, sy'n unol yn fras â safon uwch Tai ar y Cyd, ac yna o ddyddiad penodol yn ddiweddarach yn ystod cyfnod y cynllun, bydd y targedau yn cael eu lleihau i adlewyrchu LETI, sy'n gyffredinol yn unol â Safon Uwchradd Tai ar y Cyd.
- ix. Cynhyrchwyd hefyd dystiolaeth sy'n cyflawni safonau uwch ar gyfer adeiladau amhreswyl. Daethpwyd i'r casgliad, o ystyried y teipolegau cyfyngedig a fodelwyd, a'r ystod eang o deipolegau a allai ddod ymlaen, na fyddai ymyrraeth i ddatblygiadau amhreswyl yn cael ei chynnwys.



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

